

# Cyflog yr Aelodau: Cymhariaeth Ryngwladol

Chwefror 2025

Mae'r papur hwn yn ystyried sut mae deddfwrfeydd ledled y DU ac yn rhyngwladol yn pennu cyfraddau cyflog ar gyfer aelodau o'u seneddau a deiliaid swyddi ychwanegol.

Mae'r papur hwn yn rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer adolygiad y Bwrdd Taliadau Annibynnol o Daliadau a Chymorth Personol i'r Aelodau.

Mae cymharu gwerth ariannol cyflogau yn uniongyrchol yn dasg heriol. Gan fod rolau a chyfrifoldebau seneddwr yn amrywio'n sylweddol, mae pob senedd neu gorff tâl yn gwneud penderfyniadau ar sail y cyd-destun economaidd y maent yn gweithredu ynddo, a'r 'pŵer prynu' cymharol ar draws gwledydd a rhanbarthau<sup>1</sup>. At hynny, mae'r cyfraddau trosi arian cyfred yn destun newid. Gall y gymhariaeth hon, fodd bynnag, fod o gymorth i drafodaethau ynghylch sut y penderfynir ar gyflog Aelodau, pa ddeiliaid swyddi ychwanegol a ddylai gael taliadau ychwanegol, a'r dull o feincnodi a mynegeo blynyddol.

---

<sup>1</sup> Nid yw mesurau 'pŵer prynu' rhanbarthol ar gael ar gyfer y DU ac er bod ystadegau 'cyfnewid ar baredd pŵer' (neu PPP) gael drwy Parline, mae problemau gydag ansawdd y data a gedwir, a'r modd y cyfrifir PPP.

---

# Cynnwys

<b>1. Crynodeb Gweithredol.....</b>	<b>4</b>
Pennu lefelau cyflog a mynegeio.....	4
Heriau: Rhewi cyflogau, hepgor codiadau cyflog a chanfyddiad y cyhoedd.....	7
Deiliaid Swyddi Ychwanegol.....	8
<b>2. Cyflwyniad.....</b>	<b>10</b>
<b>3. Deddfwrfeydd y DU .....</b>	<b>11</b>
Y Senedd.....	11
Mynegeio.....	11
Deiliaid swyddi ychwanegol.....	11
Senedd y DU.....	12
Mynegeio cyflogau Aelodau Seneddol a chadeiryddion pwyllgorau .....	13
Deiliaid swyddi ychwanegol.....	13
Senedd yr Alban.....	16
Mynegeio.....	16
Deiliaid swyddi ychwanegol.....	16
Cynulliad Gogledd Iwerddon .....	17
Mynegeio.....	17
Deiliaid swyddi ychwanegol.....	18
Crynodeb o wahaniaethau allweddol.....	18
<b>4. Enghreifftiau rhyngwladol.....</b>	<b>19</b>
Oireachtas, Iwerddon .....	19
Mynegeio.....	19
Deiliaid swyddi ychwanegol.....	20
Seland Newydd .....	21
Mynegeio.....	21
Deiliaid swyddi ychwanegol.....	22

---

Victoria, Awstralia .....	24
Mynegeio.....	25
Deiliaid swyddi ychwanegol.....	26
Yr Almaen .....	28
Norwy.....	29
Denmarc.....	29
Y Ffindir .....	30
Sweden .....	31
Awstria.....	32
Canada.....	33
<b>5. Atodiad A: Cymariaethau â'r DU.....</b>	<b>35</b>
<b>6. ATODIAD B: Cymhariaeth Cyflogau Aelodau .....</b>	<b>37</b>
<b>7. Atodiad C: Cymhariaeth Mynegeio.....</b>	<b>38</b>

# 1. Crynodeb Gweithredol

Yn y rhan fwyaf o seneddau, mae'n gyffredin i aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol gael eu talu. Er nad yw cymhariaeth uniongyrchol rhwng enghreifftiau rhyngwladol heb ei herio, gall ystyried sut y mae gwahanol ddeddfwrfeydd yn gwneud penderfyniadau am gyflog seneddwyr, y mynegeion a ddefnyddir i feincnodi ac uwchraddio cyflogau a'r mathau o swyddi ychwanegol sy'n cael eu talu, helpu i lywio penderfyniadau cyn y Seithfed Senedd.

## Pennu lefelau cyflog a mynegeio

---

Mae'r seneddau a adolygwyd ar gyfer y papur cymharu hwn i gyd yn defnyddio gwahanol ddulliau o osod a mynegeio cyflog aelodau.

- At hynny, mae lefel y disgrisiwn sydd gan gyrff taliadau ynghylch mynegeio blynyddol yn amrywio. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Taliadau osod lefelau cyflog a mynegeio blynyddol unwaith y tymor yn unig, cyn y tymor Senedd y mae'n berthnasol iddo (oni bai bod amgylchiadau eithriadol), tra bod mynegeio blynyddol yn cael ei osod yn flynyddol yn Senedd yr Alban a Senedd y DU. Yn Seland Newydd, mae'r cyflogau ar gyfer pob blwyddyn o'r tymor seneddol tair blynedd wedi'u nodi yn y Penderfyniad a gyhoeddwyd yn fuan ar ôl yr etholiad, tra bod gan eraill fel Victoria gryn ryddid i asesu amodau economaidd a chyflog presennol i lywio eu penderfyniadau.
- Mae rhai deddfwrfeydd yn cysylltu cyflogau aelodau â rolau eraill yn y sector cyhoeddus, megis graddau gwasanaeth sifil penodol neu farnwyr ffederal (e.e. yn yr Almaen). Yn Iwerddon, Awstria a'r Ffindir, mae lefelau cyflog yr aelodau'n uniongyrchol gysylltiedig â graddfa gyflog y gwasanaeth sifil.
- Mae rhai deddfwrfeydd, megis y Senedd a Senedd yr Alban, yn cysylltu newidiadau yng nghyflogau aelodau â mynegeion enillion cyfartalog, er enghraifft ASHE neu Gyflogau Wythnosol Cyfartalog (neu AWE). Defnyddiodd Senedd y DU fynegai KAC9 yn flaenorol, a oedd yn olrhain newidiadau i gyflogau'r sector cyhoeddus, ond disodlwyd hwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 oherwydd afluniadau a achoswyd gan daliadau untro, a oedd yn golygu bod y mesur yn llai adlewyrchol o dueddiadau cyflog sylfaenol y sector cyhoeddus. Yn lle hynny, cynyddwyd cyflog ASau 5.5%, yn unol â'r dyfarniad cyflog ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil.<sup>2</sup>

---

<sup>2</sup> [Supporting Democracy MPs pay report 2024 IPSA.pdf](#)

- Mae gan rai modelau ddull llai rhagnodol o fynegeio, gyda phaneli tâl yn gorfod gwneud penderfyniadau ar sail egwyddorion penodol neu, yn achos Victoria, ystyried ystod benodol o ffactorau a thystiolaeth.
- Ymddengys ei bod yn arfer cyffredin yn y gwledydd Nordig i gyflog rolau Gweinidogol a rolau Llefarydd/Dirprwy Lefarydd gael eu gosod ar yr un lefel.
- Ar draws yr enghreifftiau yn y papur hwn, mae gwahanol ddulliau o bennu cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol. Mae rhai, fel y Senedd, yn nodi taliad ychwanegol y mae deiliaid swyddi yn ei gael yn ychwanegol at eu tâl sylfaenol fel Aelod. Mae eraill yn nodi cyflog llawn ar gyfer deiliaid swyddi ychwanegol, neu ganran o gynyddran a delir yn ychwanegol at eu cyflog sylfaenol.
- Mewn rhai o'r deddfwrfeydd enghreifftiol, gwahaniaethir rhwng deiliaid swyddi ychwanegol o'r wrthblaid swyddogol a rhai pleidiau anllywodraethol eraill a gynrychiolir yn y senedd. Yn yr enghreifftiau hyn, mae deiliaid swyddi o'r wrthblaid swyddogol yn cael eu talu ar gyfradd uwch.

Er bod heriau wrth gymharu lefelau cyflog ar draws enghreifftiau rhyngwladol yn benodol, mae Tabl Un isod yn rhoi crynodeb o lefelau cyflog ar gyfer 2024-25 wedi'u trosi'n sterling.<sup>3</sup> Mae Tabl Dau yn rhoi crynodeb o fodolau mynegeio.

## Tabl Un

Deddfwrfa	Cyflog Blynnyddol 2024-25 (Arian Lleol)	Cyflog Blynnyddol 2024-25 (Sterling)
Y Senedd	£72,057	£72,057
Senedd y DU	£91,346	£91,346
Senedd yr Alban	£72,196	£72,196
Cynulliad Gogledd Iwerddon	£52,003	£52,003
Oireachtas, Iwerddon	€ 113,679	£94,501
Senedd Seland Newydd	\$168,600	£76,729
Senedd Victoria	\$205,798	£103,949
Bundestag, yr Almaen	€ 134,726	£111,998

<sup>3</sup> Troswyd arian cyfred gan ddefnyddio trawsnewidydd Google 17.02.2025, wedi'i dalgrynnu i'r bunt agosaf

Storing, Norwy	NOK 1,171,000	£83,609
Eduskunta, y Ffindir	€ 85,644	£71,195
Riksdag, Sweden	SEK 900,000	£66,717
Senedd Awstria	€ 233,650	£194,233
Tŷ'r Cyffredin, Canada	\$203,100	£113,594

**Tabl Dau**

<b>Deddfwrfa</b>	<b>Dull Mynegeo</b>	<b>Cynnydd Blynyddol ar gyfer 2024-25</b>
Y Senedd	Cynnydd blynyddol yn seiliedig ar gyflog canolrifol ASHE	3.0%
Senedd y DU	Cynnydd blynyddol yn seiliedig ar ddyfarniad cyflog o 5.5% ar gyfer gweithwyr yr Uwch Wasanaeth Sifil a thwf cyflog tymor canolig y sector cyhoeddus o 5.3%.	5.5%
Senedd yr Alban	Cynnydd blynyddol yn seiliedig ar gyflog sector cyhoeddus AWE .	6.7%
Cynulliad Gogledd Iwerddon	Cynnydd blynyddol o £500 os yw CPI ar gyfer y mis Medi blaenorol yn fwy nag 1%.	0.5%
Oireachtas, Iwerddon	Cynnydd blynyddol yn gysylltiedig â chodiad cyflog y gwasanaeth sifil.	~5.86%
Senedd Seland Newydd	Cynnydd blynyddol i ffigwr y manylir arno yn y Penderfyniad, yn seiliedig ar gymhwyso set o egwyddorion arweiniol gan gynnwys perthynoledd teg â swyddi tebyg; yr angen i fod yn deg i'r unigolion y mae eu cyflog yn cael ei osod, ac i drethdalwyr; gofynion y swydd; yr angen i recriwtio a chadw unigolion cymwys; unrhyw amodau economaidd anffafriol presennol (a allai arwain yr Awdurdod i osod tâl ar gyfradd is nag y gallai fod wedi bod yn wir fel arall).	2.9%
Bundestag, yr Almaen	Cynnydd blynyddol yn seiliedig ar y Mynegai Cyflog Enwol.	6.0%
Folketing, Denmarc	Pennir tâl mewn perthynas â graddfa gyflog y gwasanaeth sifil.	Nid yw'r data ar gael
Althing, Gwlad yr Iâ	Bydd Swyddfa Ystadegol Gwlad yr Iâ yn cyfrifo addasiadau blynyddol i gyfateb i'r newid cymesurol yng nghyflog cyfartalog gweision sifil yn ystod y 12 mis diwethaf.	6-6.3%

Senedd Victoria, Awstralia	Adolygiad blynyddol gydag unrhyw ymgodiad yn seiliedig ar gymhwyso set o egwyddorion arweiniol gan gynnwys datganiad o faterion polisi gan Lywodraeth Victoria sydd mewn grym o ran ei pholisi cyflogau; sefyllfa ariannol a strategaeth gyllidol talaith Victoria; amodau a thueddiadau economaidd presennol a rhagamcanol; cyflwyniadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r penderfyniad arfaethedig.	3.5%
----------------------------	--	------

### Heriau: Rhewi cyflogau, hepgor codiadau cyflog a chanfyddiad y cyhoedd

---

Roedd nifer o'r deddfwrfeydd a adolygwyd wedi wynebu heriau yn ymwneud â chyflogau Aelodau.

- Cyflwynwyd cyfnod o rewi cyflogau a chap dilynol o 3% ar fynegeio blynyddol gan y Bwrdd Taliadau o ddechrau Chwefed tymor y Senedd, o ystyried canlyniadau economaidd a goblygiadau pandemig COVID-19.
- Yn yr Alban, mae Gweinidogion wedi rhewi cyflogau Gweinidogion yn wirfoddol ers mis Ebrill 2009<sup>4</sup> ac mae Gweinidogion y DU wedi rhewi cyflogau ers mis Mai 2010.<sup>5</sup>
- Yn Iwerddon, lle mae cyflogau wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â chyflogau'r gwasanaeth sifil, bu cryn sylw yn y cyfryngau yn flaenorol i godiadau cyflog arfaethedig dros flynyddoedd olynol. At hynny, mae rhai aelodau wedi dewis hepgor eu codiadau cyflog, gan arwain at sefyllfa gymhleth lle, yn ymarferol, y gellir talu lefelau gwahanol o gyflog i aelodau.

---

<sup>4</sup> <https://www.snp.org/nicola-sturgeon-publishes-tax-return> [Cyrchwyd 13.02.25]

<sup>5</sup> <https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-9514> [Cyrchwyd 13.02.25]

---

- Mae nifer o enghreifftiau – yr Alban, Seland Newydd a'r Senedd – hefyd wedi cael cyfnodau lle mae cyflogau wedi'u rhewi. Caiff y canlyniad ei gymryd yn aml mewn ymateb i amodau economaidd, a gall fod yn ymyl clogwyn sylweddol pan fydd cyflog aelodau, wedyn, yn cael ei adolygu.
- At hynny, roedd yn rhaid i Seland Newydd wrthdroi newid yn y fethodoleg a ddefnyddiwyd wrth bennu cyflogau Aelodau yn 2015. Arweiniodd newid i fodel a oedd yn seiliedig ar gyflogau a mynegeio ar gyflog cyfartalog y sector cyhoeddus, at gynnig codiad cyflog mwy na'r disgwyl. Aeth y Senedd ymlaen i basio Deddf a oedd yn adfer y dull blaenorol o weithredu, lle'r oedd y Tribiwnlys Taliadau'n seilio penderfyniadau ar ystyried ystod ehangach o egwyddorion.

## Deiliaid Swyddi Ychwanegol

---

Mae'r ystod o swyddfeydd ychwanegol sy'n cael tâl yn amrywio ar draws y deddfwrfeydd; mae rhai yn cynnwys rhestrau sy'n nodi lefelau gwahanol o dâl ychwanegol ar gyfer rolau gweinidogol a seneddol, e.e. Victoria a Chanada. Mae eraill yn darparu ar gyfer ystod lai o rolau, megis Senedd yr Alban a Senedd yr Alban.

Mae nifer o rolau yn cael eu talu'n gyffredin ar draws y rhan fwyaf o ddeddfwrfeydd enghreifftiol. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Prif Weinidog
- Gweinidogion
- Llefarydd/Llywydd a Dirprwy Llefarydd y senedd
- Arweinwyr y gwrthbleidiau
- Cadeiryddion pwyllgorau
- Chwipiaid y Llywodraeth a'r gwrthbleidiau
- Twrneiod / Cyfreithwyr Cyffredinol

At hynny, mae'r fethodoleg a'r modelau tâl ychwanegol yn wahanol. Mae llawer o ddeddfwrfeydd neu gyrrff taliadau yn darparu ar gyfer cyflog ychwanegol penodol i'w dalu i ddeiliaid swyddi, ac mae rhai yn darparu ar gyfer cyflog ychwanegol yn seiliedig ar ganran o

---



gyflog sylfaenol aelod (Sweden ac Awstria). Mae rhai deddfwrfeydd, hefyd, yn gwahaniaethu rhwng rolau aelodau'r wrthblaid swyddogol a thrydydd pleidiau/pleidiau eraill, e.e. Canada, tra yn Seland Newydd mae nifer a chyflog arweinwyr plaid a chwipiaid yn gysylltiedig â nifer yr aelodau mewn grŵp seneddol plaid. Mae llawer yn nodi, pe bai unrhyw aelod yn dal mwy nag un swydd ychwanegol, dim ond un cyflog ychwanegol y bydd yn ei gael, sef yr uchaf o'r taliadau sydd ar gael.

## 2. Cyflwyniad

Fel rhan o waith thematig y Bwrdd Taliadau Annibynnol cyn y Seithfed Senedd, cynhaliwyd adolygiad o gyflog a chymorth personol yr Aelodau. Mae'r papur hwn yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y ffrwd waith hon ac mae'n nodi cyfraddau a modelau cyflog Aelodau ar draws deddfwrfeydd y DU a deddfwrfeydd rhyngwladol.

Mae cymharu gwerth ariannol cyflogau yn uniongyrchol yn weithred heriol. Gan fod rolau a chyfrifoldebau seneddwr yn amrywio'n sylweddol, mae pob senedd neu gorff taliadau yn gwneud penderfyniadau ar sail y cyd-destun economaidd y mae'n gweithredu ynddo, y 'pŵer prynu' cymharol ar draws gwledydd a rhanbarthau<sup>6</sup>, a chyfraddau trosi arian cyfred cyfnewidiol.

Gall y gymhariaeth hon, fodd bynnag, fod o gymorth i drafodaethau ynghylch sut y penderfynir ar gyflog Aelodau, pa ddeiliaid swyddi ychwanegol a ddylai gael taliadau ychwanegol, a'r dull o feincnodi a mynegeo blynyddol.

Mae'r papur yn dechrau gyda chymhariaeth o ddeddfwrfeydd y DU, lle mae cymhariaeth fwy uniongyrchol yn bosibl. Mae Pennod Tri yn edrych ar nifer o seneddau rhyngwladol, gan gwmpasu ystod o systemau etholiadol gwahanol.

Cyflwynir cymhariaeth gryno o gyfraddau cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau ar draws yr enghreifftiau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn [Atodiad C](#), a cheir cymhariaeth debyg o ddulliau mynegeo yn [Atodiad D](#).

---

<sup>6</sup> Nid yw mesurau 'pŵer prynu' rhanbarthol ar gael ar gyfer y DU ac er bod ystadegau 'cyfnewid ar baredd pŵer' (neu PPP) gael drwy Parline, mae problemau gydag ansawdd y data a gedwir, a'r modd y cyfrifir PPP.

---

## 3. Deddfwrfeydd y DU

Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o'r modd y caiff tâl ei bennu ar gyfer aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol ym mhedair deddfwrfa'r DU.

### Y Senedd

Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol yn gyfrifol am bennu lefelau tâl ar gyfer aelodau a'r holl ddeiliaid swyddi ychwanegol, gan gynnwys rolau'r Senedd a'r llywodraeth.

O dan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, caiff y Bwrdd Taliadau wneud un Penderfyniad ar gyflogau Aelodau fesul tymor, oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Nodwyd hyn mewn Penderfyniad Eithriadol ym mis Mawrth 2021<sup>7</sup>.

Yn 2024-25, roedd yr Aelodau'n cael cyflog o £72,057 y flwyddyn.

### Mynegeio

---

Yn 2009, cyn sefydlu'r Bwrdd Taliadau, cytunodd y Senedd ar Benderfyniad a oedd yn nodi y dylai cyflogau Aelodau fod yn hafal i 82% o gyflog Aelodau Seneddol. Torrwyd y cyswllt hwn â chyflogau Aelodau Seneddol yn dilyn Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, a sefydlu'r Bwrdd. Roedd mynegeio yn gysylltiedig â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) cyn y Bumed Senedd (a ddaeth i rym yn 2016). Mae cyflogau Aelodau o'r Senedd wedi bod yn destun rhewi a chapiau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan adlewyrchu cyfnodau o ansefydlogrwydd economaidd yng Nghymru. Ar gyfer y Chweched Senedd, cynyddodd cyflog Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol yn flynyddol, yn gysylltiedig ag ASHE, wedi'i gapio ar 3% a chyda terfyn isaf o 0%.

### Deiliaid swyddi ychwanegol

---

Ar gyfer 2024-25, pennwyd tâl deiliad swydd ychwanegol fel a ganlyn:

---

<sup>7</sup><https://senedd.cymru/media/5hwhf440/gen-ld14246-w.pdf>

**Tabl Tri**

<b>Rôl</b>	<b>Cyflog ychwanegol</b>	<b>Cyfanswm cyflog</b>
Y Prif Weinidog	£85,567	£157,624
Gweinidog Cymru	£40,531	£112,588
Y Cwnsler Cyffredinol	£40,531	£112,588
Dirprwy Weinidog	£23,644	£95,701
Y Llywydd	£46,160	£118,217
Y Dirprwy Lywydd	£23,644	£95,701
Comisiynydd y Senedd	£14,636	£86,693
Cadeirydd Pwyllgor (Uwch)	£14,636	£86,693
Cadeirydd Pwyllgor (Is)	£9,751	£81,808
Aelod o'r Pwyllgor Busnes	£9,751	£81,808
Arweinydd grŵp gwleidyddol nad yw'n rhan o'r Llywodraeth	£14,636 + £1,126 yr Aelod hyd at £40,536	Hyd at uchafswm o £112,588

**Senedd y DU**

Mae tâl i aelodau Senedd y DU a rhai rolau seneddol yn cael eu pennu gan yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol (neu *IPSA*).

Darperir ar gyfer talu cyflogau a thaliadau diswyddo i Weinidogion Llywodraeth y DU a sawl deiliad swydd seneddol drwy ddeddfwriaeth, a'r ddau ddarn mwyaf arwyddocaol o ddeddfwriaeth yw *Deddf Cyflogau Gweinidogol a Chyflogau Eraill 1975* a *Deddf Pensiynau a Chyflogau Gweinidogol ac Eraill 1991*.

Mae *IPSA* yn gyfrifol am bennu ystod lai o gyflogau deiliaid swyddi ychwanegol na'r Bwrdd Taliadau. Mae *IPSA* yn nodi'r cyflogau ychwanegol ar gyfer chadeiryddion pwyllgorau dethol yn unig, yn ogystal â chyflogau a phensiynau Aelodau Seneddol.

Ar gyfer 2024-25 cyflog sylfaenol Aelodau Seneddol yw **£91,346**. Mae Cadeiryddion Pwyllgorau Dethol yn cael £18,309 o gyflog ychwanegol.<sup>8</sup>

### Mynegeio cyflogau Aelodau Seneddol a chadeiryddion pwyllgorau<sup>9</sup>

---

Yn flaenorol, cafodd cyflogau Aelodau Seneddol eu mynegeio'n flynyddol gan ddefnyddio set ddata **Enillion Wythnosol Cyfartalog KAC9**, sy'n nodi twf cyfartalog y sector cyhoeddus, flwyddyn ar ôl blwyddyn, o dri mis.

Fodd bynnag, oherwydd taliadau eithriadol a wnaed yn ystod 2023 – yn enwedig taliadau costau byw untro a wnaed i rai gweithwyr rheng flaen – roedd mesur KAC9 yn gorddatgan y codiad cyflog a gafwyd gan fwyafrif y sector cyhoeddus.<sup>10</sup> Ar gyfer 2024-25, felly, mabwysiadodd IPSA fynegai eraill, a chafodd Aelodau Seneddol godiad cyflog o 5.5%, yn weithredol o 1 Ebrill 2024, a oedd yn cyd-fynd â'r codiad cyflog a ddyfarnwyd i'r Uwch Wasanaeth Sifil, fel yr argymhellwyd yn y Pedwar deg Pumed Adolygiad Blynyddol ar Gyflogau Uwch.<sup>11</sup>

### Deiliaid swyddi ychwanegol

---

O dan *Ddeddf Cyflogau Gweinidogol a Chyflogau Eraill 1975*, roedd y Llefarydd, Gweinidogion y Goron, Arweinydd yr Wrthblaid a Chwipiaid yr Wrthblaid yn cae cyflog y gellir – ac sydd wedi – ei ddiwygio drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor, yn dilyn penderfyniad gan y ddau Dŷ, neu yn achos y Llefarydd drwy benderfyniad gan Dŷ'r Cyffredin.<sup>12</sup>

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn gyhoeddus ar lefelau cyflog yn ddyddiedig **Ebrill 2022**, ac mae fel a ganlyn<sup>13</sup>:

---

<sup>8</sup> [MPs' pay & pensions](#) | IPSA [Cyrchwyd 06.12.2024]

<sup>10</sup> [Supporting Democracy MPs pay report 2024 IPSA.pdf](#)

<sup>11</sup> [Forty-Fifth Annual Report on Senior Salaries 2023](#)

<sup>12</sup> Erskine May "Additional salaries paid to certain members – Paragraff 4.40"

<https://erskinemay.parliament.uk/section/6022/additional-salaries-paid-to-certain-members> [Cyrchwyd 06/12/2024]

<sup>13</sup> "Salaries of members of His Majesty's Government: April 2022"

<https://www.gov.uk/government/publications/ministerial-salary-data/salaries-of-members-of-his-majestys-government-april-2022-html> [Cyrchwyd 23.10.23]

---

## Tabl Pedwar

Rôl	Cyflog ychwanegol â hawl iddo	Cyflog a hawlir <sup>14</sup>
Prif Weinidog y DU	£80,807	£75,440
<ul style="list-style-type: none"> <li>Canghellor y Trysorlys</li> <li>Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn</li> <li>Ysgrifennydd Gwladol</li> <li>Yr Arglwydd Ganghellor</li> <li>Arglwydd Lywydd y Cyngor ac Arweinydd Tŷ'r Cyffredin</li> <li>Gweinidog Gwladol (os yw'n aelod o'r Cabinet)</li> </ul>	£72,454	£67,505
<ul style="list-style-type: none"> <li>Prif Ysgrifennydd y Trysorlys</li> <li>Ysgrifennydd Ariannol i'r Trysorlys</li> <li>Ysgrifennydd Seneddol i'r Trysorlys a'r Prif Chwip</li> <li>Trysorydd Gweision EF a'r Dirprwy Brif Chwip</li> <li>Gweinidog Gwladol</li> </ul>	£34,742	£31,680
Ysgrifennydd Seneddol (gan gynnwys unrhyw weinidog a ddisgrifir fel yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ac Ysgrifennydd y Trysorlys i'r Trysorlys)	£27,947	£22,375

<sup>14</sup> Dros nifer o flynyddoedd mae codiadau yng nghyflogau gweinidogion wedi'u caniatáu o dan y Ddeddf ond nid ydynt wedi'u hawlio: mae cyflogau gweinidogion wedi'u rhewi ac yn parhau felly yn 2022-23. Mae'r tabl cyflogau felly'n dangos y symiau y mae gan weinidogion hawl iddynt a'r symiau gwirioneddol a hawliwyd neu a dalwyd yn 2022-23. <https://www.gov.uk/government/publications/ministerial-salary-data/salaries-of-members-of-his-majestys-government-april-2022-html>

Y Twrnai Cyffredinol	£100,819	£94,450
Y Cyfreithiwr Cyffredinol	£62,368	£57,962
<ul style="list-style-type: none"> <li>Rheolwr Gweision EF (Chwip y Llywodraeth)</li> <li>Is-Siambrlen Gweision EM (Chwip y Llywodraeth)</li> <li>Arglwydd Iau y Trysorlys (Chwip y Llywodraeth)</li> <li>Chwip Cynorthwyol</li> </ul>	£20,261	£17,917

Nid oedd modd dod o hyd i gyflogau presennol Chwipiaid yr Wrthblaid, Llefarydd Tŷ'r Cyffredin a Dirprwy Lefarwyr ar wefan Senedd y DU<sup>15</sup>. Fodd bynnag, dyma ffigurau 2024 yr Institute for Government:

### Tabl Pump

Rôl	Cyflog ychwanegol â hawl iddo <sup>16 17</sup>
Chwipiaid yr Wrthblaid	£33,490
Llefarydd Tŷ'r Cyffredin	£79,760
Dirprwy Lefaryddion	£37,705

<sup>15</sup> <https://erskinemay.parliament.uk/section/6022/additional-salaries-paid-to-certain-members>

<sup>16</sup> <https://erskinemay.parliament.uk/section/6025/salaries-of-leader-of-opposition-and-opposition-whips> [Cyrchwyd 14.02.25]

<sup>17</sup> <https://www.instituteforgovernment.org.uk/explainer/mps-pay-and-second-jobs> [Cyrchwyd 14.02.25]

## Senedd yr Alban

Corff Corfforaethol Senedd yr Alban sy'n gwneud penderfyniadau am gyflogau Aelodau yn Senedd yr Alban. Yn 2023-24, pennwyd cyflogau ASAAu ar £72,196.<sup>18</sup>

### Mynegeio<sup>19</sup>

---

Mae Cynllun Cyflogau Senedd yr Alban yn nodi y bydd unrhyw gyflog sy'n daladwy yn rhinwedd y Cynllun yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu unrhyw gynnydd yn y mynegai ar gyfer enillion blynyddol cymedrig gweithwyr amser llawn y sector cyhoeddus yn yr Alban, fel y darperir ar ei gyfer gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion a gynhrychir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, neu unrhyw fynegai arall y mae'r Gorfforaeth Seneddol yn ei hystyried yn briodol o bryd i'w gilydd.

Cyn 2015-16 roedd cyflogau Aelodau o Senedd yr Alban yn gysylltiedig â chyflogau Tŷ'r Cyffredin, a osodwyd ar 87.5% o gyflog Aelodau Seneddol. Mae'r cysylltiad hwn â chyflogau Aelodau Seneddol wedi'i dorri ers hynny, ac mae ASHE wedi'i ddefnyddio fel mynegrif blynyddol o gyflogau Aelodau Seneddol y DU, ar wahân i 2021-22, lle cafodd tâl ei rewi yng ngoleuni'r amgylchiadau economaidd ar ôl y pandemig.

Ar gyfer 2024-25, penderfynwyd defnyddio mynegai gwahanol i ASHE, gan fod ASHE wedi disgyn yn sylweddol is na dangosyddion eraill cyflog a chwyddiant. Cytunodd Corf Corfforaethol Senedd yr Alban, felly, i ddefnyddio Enillion Wythnosol Cyfartalog (neu AWE) ar 6.7%. Ar gyfer 2024-25, y cyflog ar gyfer Aelodau o Senedd yr Alban oedd £72,195.

### Deiliaid swyddi ychwanegol

---

Mae nifer o ddeiliaid swyddi yn derbyn cyflogau ychwanegol<sup>20</sup>:

---

<sup>18</sup> <https://www.parliament.scot/msps/msp-salaries> [Cyrchwyd 06.12.24]

<sup>19</sup> Gwybodaeth a gasglwyd gan gydweithwyr Corff Corfforaethol Senedd yr Alban ym mis Ionawr 2024.

<sup>20</sup> Ibid.



**Tabl Chwech**

<b>Rôl</b>	<b>Cyflog ychwanegol</b>	<b>Cyfanswm cyflog</b>
Y Prif Weinidog	£104,584	£176,780
Ysgrifenydd Cabinet	£54,256	£126,452
Gweinidog	£33,989	£106,185
Y Llywydd	£54,256	£126,452
Y Dirprwy Lywydd	£33,989	£106,185
Arglwydd Adfocad yr Alban	£70,881	£143,077
Cyfreithiwr Cyffredinol yr Alban	£51,257	£123,453

Ers 2008/09, mae rhewi cyflogau'n wirfoddol wedi bod yn berthnasol i Weinidogion yr Alban, felly mae'r cyflog gwirioneddol i weinidogion yn parhau ar lefelau 2008/09.<sup>21</sup> Nid yw cynullwyr (cadeiryddion pwyllgorau seneddol) yn cael eu talu, yn wahanol i'r Senedd a Senedd y DU.

**Cynulliad Gogledd Iwerddon**

Yng Ngogledd Iwerddon, parheir i ddarparu ar gyfer cyflogau Aelodau o dan Ran 1 o Benderfyniad Aelodau'r Cynulliad (Cyflogau a Threuliau) (Gogledd Iwerddon) 2016.<sup>22</sup> O 01/04/2024 ymlaen, telir cyflog sylfaenol o £52,500 i Aelodau.

Mynegeio<sup>23</sup>

Mynegir cyflogau aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol ar gynnydd o £500 bob blwyddyn ar 1 Ebrill, os yw meini prawf chwyddiant yn cael eu bodloni – sef bod CPI ar gyfer mis Medi'r flwyddyn flaenorol yn 1% neu fwy.

<sup>21</sup> "Pay rise for MSPs takes salary to more than £72,000" BBC, 16 Ionawr 2024 <https://www.bbc.co.uk/news/uk-scotland-scotland-politics-67995886> [Cyrchwyd 15.02.24]

<sup>22</sup> *Salaries and Expenditure Rates 2022-2027* [Cyrchwyd 14.02.25]

<sup>23</sup> Ibid.

## Deiliaid swyddi ychwanegol

---

Cafodd nifer o ddeiliaid swyddi gyflogau uwch fel a ganlyn<sup>24</sup>:

### Tabl Saith

Rôl	Cyflog ar gyfer y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2024
Aelod o'r Comisiwn	£58,500
Cadeirydd neu Bwyllgor Statudol neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus	£64,500
Y Llefarydd	£90,500
Prif Ddirprwy Lefarydd neu Ddirprwy Lefarydd	£58,500
Prif Weinidog neu Ddirprwy Brif Weinidog	£124,500
Swydd Weinidogol Arall	£90,500
Gweinidog Iau	£58,500

### Crynodeb o wahaniaethau allweddol

Maes lle mae'r gwahaniaeth mwyaf rhwng deddfwrfeydd y DU yw pa rolau deiliad swydd ychwanegol sy'n cael cyflogau:

- Nid yw Senedd yr Alban yn darparu ar gyfer cyflogau ychwanegol i Gynullwyr (Cadeiryddion) Pwyllgorau, yn wahanol i'r Senedd a Senedd y DU. Dim ond ar gyfer cyflogau cadeiryddion pwyllgorau statudol y mae Gogledd Iwerddon yn darparu.
- Yn Senedd y DU, dyrennir cyflogau ar gyfer Chwipiaid Grŵp. Yn yr Alban, disodlwyd rôl Chwip y Grŵp gan y Gweinidog dros Fusnes Seneddol, sy'n cael cyflog Gweinidog Iau.

At hynny, mae'r deddfwrfeydd yn mabwysiadu ymagwedd wahanol at fynegeio blynyddol, o ran pa fynegai a ddefnyddir, a pha mor aml y gellir adolygu mynegeio blynyddol; bod mynegeio blynyddol Aelodau o'r Senedd a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn cael ei osod cyn y tymor y mae'n gymwys iddo (oni bai, yn achos y Senedd, fod amgylchiadau eithriadol) tra caiff ei

---

<sup>24</sup> Ibid.

adolygu'n flynyddol yn Senedd yr Alban a Senedd y DU gan Gorff Corfforaethol Senedd yr Alban a'r IPSA, yn y drefn honno.<sup>25</sup>

## Enghreifftiau rhyngwladol

Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o gyflogau aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol o nifer o ddeddfwrfeydd rhyngwladol. Y deddfwrfeydd a ddewiswyd yw'r rheini y mae gwybodaeth berthnasol ar gael yn rhwydd ar eu cyfer. Mae systemau etholiadol gwahanol ar waith ar draws yr enghreifftiau, o'r cyntaf i'r felin, i MMP i systemau rhestrau pleidiau; nodir y system etholiadol ar gyfer pob enghraifft.

Darperir cymhariaeth gryno o gyfraddau cyflog sylfaenol yn [Atodiad C](#) ac o fodelau mynegeio yn [Atodiad D](#).

### Oireachtas, Iwerddon

Yr Adran Gwariant Cyhoeddus, Cyflawni a Diwygio NDP sy'n gyfrifol am gyflogau a lwfansau aelodau.

Mae Teachtaí Dála (TDau), (Aelodau o'r Dáil Éireann) yn cael cyflog sylfaenol, sydd ar hyn o bryd wedi'i bennu ar **€113,679**.<sup>26</sup> (£94,604)<sup>27</sup> Gall aelodau ddewis hepgor derbyn rhywfaint o gyflog neu lwfansau. Ers 2009 mae hyn wedi digwydd ar sawl achlysur.

### Mynegeio

---

Yn 2000, argymhellwyd bod cyfradd cyflog TDau yn cael ei gysylltu ag uchafswm arferol graddfa prif swyddog yn y gwasanaeth sifil.<sup>28</sup> Penderfynir ar godiadau cyflog ar gyfer TDau drwy gytundebau rhwng y llywodraeth ac undebau gwasanaethau cyhoeddus.<sup>29</sup> Mae'r cytundebau hyn yn gosod codiadau canrannol neu symiau penodol penodol dros gyfnodau penodol, gan sicrhau bod newidiadau cyflog yn rhagweladwy ac yn cyd-fynd â pholisiau cyflog cyffredinol y

---

<sup>25</sup> IPSA (2021) *Consultation report: mechanism for updating MPs' salaries*

<sup>26</sup> *Pay of Members of the Oireachtas & Certain Ministerial & Parliamentary Officeholders*

<sup>27</sup> Yn seiliedig ar drawsnewidydd arian cyfred Google 17.02.25

<sup>28</sup> N. Dickinson a N. Bolleyer (2019) *Compensation of Political Work in Ireland*

<https://ora.ox.ac.uk/objects/uuid:1e990419-2cff-484f-a5bd-779a6bc7c741/files/s7w62f846q>

<sup>29</sup> *Building Momentum – PSA 2021-2022 – agreed amendment*

sector cyhoeddus. Er enghraifft, rhwng 2024 a 2026, mae cynnydd a drefnwyd yn cynnwys cynnydd o 2.25% neu €1,125 (£936)<sup>30</sup> cynnydd ar 1 Ionawr 2024.<sup>31</sup>

## Deiliaid swyddi ychwanegol

Mae nifer o ddeiliaid swyddi ychwanegol yn cael 'lwfans cyflog ychwanegol'. Mae manylion y cyflogau ar gyfer swyddi yn Nhŷ'r Oireachtas fel a ganlyn<sup>32 33</sup>:

### Tabl Wyth

Safle	Lwfans Cyflog Ychwanegol
<b>Ceann Comhairle (Llefarydd Dáil Éireann)</b>	€141,834 (£118,034)
<b>Leas-Cheann Comhairle (Dirprwy Gadeirydd y Dáil)</b>	€61,892 (£51,506)
<b>Chwip Cynorthwyol y Llywodraeth</b>	€17,191 (£14,306)
<b>Chwipiaid pleidiau eraill</b>	€6,875 – €11,458 (£5,721 – £9,535)
<b>Chwipiaid Cynorthwyol pleidiau eraill</b>	€3,439 – €10,888 (£2,862 – £9,061)
<b>Cadeirydd pwyllgor</b>	€10,888 (£9,061)
<b>Aelodau'r Comisiwn</b>	€10,888 (£9,061)

Pan fo aelod yn Gadeirydd mwy nag un pwyllgor, mae'n gymwys i gael un lwfans.<sup>34</sup>

At hynny, caiff rolau gweinidogol lefelau cyflog ychwanegol, ac mae'r rheini fel a ganlyn<sup>35</sup>:

### Tabl Naw

Safle	Lwfans Cyflog Ychwanegol
-------	--------------------------

<sup>30</sup> Yn seiliedig ar drawsnewidydd arian cyfred Google 17.02.25

<sup>31</sup> *Public Service Agreement 2024-2026*

<sup>32</sup> "Salaries" <https://www.oireachtas.ie/en/members/salaries-and-allowances/salaries/>

<sup>33</sup> Yn seiliedig ar drawsnewidydd arian cyfred Google 17.02.25

<sup>34</sup> Ibid.

<sup>35</sup> <https://www.gov.ie/pdf/?file=https://assets.gov.ie/270728/050d5d5f-4480-4acb-b177-dac2fc82a171.pdf#page=null> [Cyrchwyd 02.02.24]

Taoiseach	€130,216 (£108,366)
Tánaiste	€111,294 (£92,619)
Gweinidog	€92,938 (£77,343)
Twrnai Cyffredinol <sup>36</sup>	€205,372 (£170,910)
Gweinidog Gwladol	€45,846 (£38,153)
Rhai Gweinidogion Gwladol (Gweinidogion Gwladol sy'n mynychu'r Cabinet)	€13,145 (£10,939)

Ers 2020, mae aelodau'r Llywodraeth a Gweinidogion Gwladol wedi 'rhoi' 10% o'u tâl (tâl Gweinidogol a TD) i'r Wladwriaeth yn flynyddol.<sup>37</sup>

## Seland Newydd

### Mynegeio

Mae cyflogau Aelodau Seneddol yn cael eu hadolygu a'i osod gan yr Awdurdod Taliadau. Mae'r meini prawf y mae'n rhaid iddo eu hystyried wrth bennu cyflogau Aelodau Seneddol wedi'u nodi yn y Ddeddf Awdurdod Taliadau, fel a ganlyn<sup>38</sup>:

- Perthynoledd teg â swyddi tebyg
- Yr angen i fod yn deg i'r unigolion y mae eu cyflog yn cael ei bennu, ac i drethdalwyr, fel ei gilydd
- Gofynion y swydd
- Yr angen i recriwtio a chadw unigolion cymwys

<sup>36</sup> Nid yw elfen TD wedi'i rhestru ar gyfer y swydd hon, felly gellir darllen hwn fel y cyflog llawn ac nid yr elfen deiliad swydd ychwanegol yn unig.

<sup>37</sup> "Pay of Oireachtas Members and Office Holders" <https://www.gov.ie/en/publication/a8bc7-pay-of-oireachtas-members-and-office-holders/>. [Cyrchwyd 02.02.24]

<sup>38</sup> Sut mae cyflogau Aelodau Seneddol a Gweinidogion yn cael eu pennu? <https://www.parliament.nz/en/get-involved/features/how-is-the-pay-of-mps-and-ministers-set/>. [Cyrchwyd 02.02.24]

- Unrhyw amodau economaidd anffafriol (a allai arwain yr Awdurdod i osod tâl ar gyfradd is nag y byddai wedi bod, fel arall)

Mae cyflogau Aelodau Seneddol Seland Newydd wedi'u nodi yn y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Seneddol, sy'n cael ei ddiweddarau bob tair blynedd ar ôl etholiad cyffredinol. Ar ôl rhewi cyflogau am chwe blynedd, rhoddodd Penderfyniad 2024 'ddull maes glas' ar waith i adolygu cyflogau Aelodau Seneddol.

Adolygodd yr Awdurdod Tâl amryw o ffactorau, gan gynnwys gwneud cymariaethau â systemau seneddol eraill, a rolau uwch yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. At hynny, cwblhaodd yr Awdurdod werthusiad o addasrwydd amrywiol ddulliau mynegeo, gan gynnwys y Mynegai Costau Llafur (neu *LCI*), cyflog cyfartalog, a Mynegai Prisiau Defnyddwyr (neu *CPI*) Seland Newydd.

Arweiniodd yr adolygiad at gynnydd o 2.8% (cyfwerth â £2,121) ar gyfer y flwyddyn bresennol, a chynnydd dilynol o 2.9%, 2.4%, a 2.0% dros y blynyddoedd nesaf. At hynny, cafodd addasiadau cyflog eu gwneud ar gyfer rolau penodol fel y Prif Weinidog, Gweinidogion, ac arweinwyr pleidiau, i adlewyrchu newidiadau yn eu cyfrifoldebau.<sup>39</sup>

### Deiliaid swyddi ychwanegol

---

Telir cyflogau i nifer o ddeiliaid swyddi ychwanegol. Y ffigurau isod yw cyfanswm y cyflog sy'n daladwy i'r deiliaid swyddi hyn. Yn wahanol i rai enghreifftiau eraill, yn hytrach na nodi cyflog ychwanegol, mae'r cyflog ar gyfer pob swydd yn cael ei bennu, ac mae Aelodau Seneddol yn cael yr uchaf o'r cyflogau y mae ganddynt hawl iddynt.

---

<sup>39</sup> *Parliamentary Salaries and Allowances Determination 2024 (SL 2024/121) Explanatory memorandum – New Zealand Legislation* [Cyrchwyd 09.12.24]

**Tabl Deg**

<b>Rôl<sup>40</sup></b>	<b>Cyflog<sup>41</sup></b>
Prif Weinidog y DU	\$520,500 (£236,723)
Dirprwy Brif Weinidog	\$369,800 (£168,185)
Aelodau'r Cyngor Gweithredol sy'n Weinidogion ac yn mynychu'r cabinet	\$313,100 (£142,398)
Holl aelodau eraill y Cyngor Gweithredol	\$230,300 (£104,740)
Is-ysgrifennydd Seneddol	\$205,600 (£93,507)
Llefarydd Tŷ'r Cynrychiolwyr	\$313,100 (£142,398)
Dirprwy Lefarydd	\$221,600 (£100,784)
Pob Llefarydd Cynorthwyol	\$190,100 (£86,457)
Arweinydd yr Wrthblaid	\$302,300 (£137,486)
Cadeiryddion pwyllgorau dethol	\$190,100 (£86,457)
Dirprwy Gadeiryddion pwyllgorau dethol	\$178,800 (£81,318)

Penderfynodd yr Awdurdod gynnal y cymarebau rhwng cyflog Aelod Seneddol cyffredin a chyflogau'r Prif Weinidog, Gweinidogion, a'r rhan fwyaf o swyddi eraill gyda chyfrifoldebau ychwanegol, fel y talwyd o dan benderfyniadau blaenorol. Yr unig safbwyntiau lle gwnaed penderfyniadau gwahanol oedd rhai Arweinydd yr Wrthblaid, arweinwyr y pleidiau, dirprwy arweinwyr, cyd-arweinwyr, a chwipiaid y pleidiau.<sup>42</sup>

<sup>40</sup> *Parliamentary Salaries and Allowances Determination 2024 (SL 2024/121) – New Zealand Legislation* [Cyrchwyd 09.12.24]

<sup>41</sup> Yn seiliedig ar drawsnewidydd arian cyfred Google 17.02.25

<sup>42</sup> *Parliamentary Salaries and Allowances Determination 2024 (SL 2024/121) Explanatory memorandum – New Zealand Legislation*

## Tabl Un ar Ddeg

<b>Arweinwyr pleidiau eraill</b>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>- <b>gyda llai na 5 aelod yn nhŷ'r cynrychiolwyr \$201,100</b></li> <li>- <b>gyda 5 neu fwy o aelodau yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr \$208,400</b></li> <li>- <b>gyda 10 neu fwy o aelodau yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr \$224,600</b></li> <li>- <b>gyda 25 neu fwy o aelodau yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr \$239,200</b></li> </ul>	
<p>Cyd-arweinwyr (cyfyngedig i uchafswm o ddau fesul parti)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- gyda llai na 5 aelod yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr \$195,600</li> <li>- gyda 5 neu fwy o aelodau yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr \$200,700</li> <li>- gyda 10 neu fwy o aelodau yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr \$216,900</li> <li>- gyda 25 neu fwy o aelodau yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr \$232,700</li> </ul>	<p>Dirprwy Arweinwyr (ar gyfer plaid heb unrhyw gyd-arweinwyr)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- gyda llai na 5 aelod yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr \$190,100</li> <li>- gyda 5 neu fwy o aelodau yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr \$193,100</li> <li>- gyda 10 neu fwy o aelodau yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr \$209,200</li> <li>- gyda 25 neu fwy o aelodau yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr \$226,200</li> </ul>
<p>Chwipiaid</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- gyda 5 neu fwy o aelodau yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr \$193,100</li> <li>- gyda 10 neu fwy o aelodau yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr \$209,200</li> <li>- gyda 25 neu fwy o aelodau yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr \$226,200</li> <li>- Y Chwip a ddynodir yn Uwch Chwip y Llywodraeth \$234,500</li> </ul>	<p>Chwipiaid lau</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Un Chwip lau ar gyfer plaid gyda 25 neu fwy o aelodau yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr \$190,100</li> <li>- Un Chwip lau arall ar gyfer plaid gyda 45 neu fwy o aelodau yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr \$190,100</li> <li>- Un Chwip lau arall ar gyfer plaid gyda 65 neu fwy o aelodau yn Nhŷ'r Cynrychiolwyr \$190,100</li> </ul>

## Victoria, Awstralia

Mae cyflogau aelodau Senedd Victoria wedi'u nodi ym Mhenderfyniad Aelodau Seneddol (Victoria), sy'n cael ei osod gan Dribiwnlys Taliadau Annibynnol Victoria.



Mae Penderfyniad 2023 yn gosod y cyflog sylfaenol yn **\$205,798** (£103,907)<sup>43</sup>.

## Mynegeio

---

Mae Tribiwnlys Taliadau Annibynnol Victoria yn gyfrifol am bennu taliadau i Aelodau Seneddol, cynghorwyr lleol a swyddogion gweithredol sector cyhoeddus Victoria.<sup>44</sup> Mae'r Tribiwnlys yn gosod Penderfyniad ac yn gwneud addasiadau blynyddol i gyflogau a lwfansau ym mis Gorffennaf bob blwyddyn.

Wrth bennu cyflogau a lwfansau, rhaid i'r Tribiwnlys ystyried nifer o ofynion deddfwriaethol<sup>45</sup>:

- Unrhyw ddatganiad o faterion polisi gan Lywodraeth Victoria sydd mewn grym o ran ei pholisi cyflogau.
- Sefyllfa ariannol a strategaeth gyllidol Talaith Victoria.
- Amodau a thueddiadau economaidd presennol a rhagamcanol.
- Cyflwyniadau a gafwyd mewn perthynas â'r penderfyniad arfaethedig.

At hynny, mae'n rhaid i'r Tribiwnlys gymryd y camau a ganlyn:

- Adolygu'n gynhwysfawr y cyflogau presennol, cyflogau ychwanegol, lwfansau seneddol sy'n gysylltiedig â gwaith a threfniadau ariannu a blwydd-daliadau a phensiynau eraill a ddarperir i Aelodau Seneddol.
- Peidio â gosod y cyflog sylfaenol ar gyfradd sy'n uwch na chyflog sylfaenol Aelodau Senedd y Gymanwlad.

---

<sup>43</sup> Yn seiliedig ar drawsnewidydd arian cyfred Google 17.02.25

<sup>44</sup> "About the Victorian Independent Remuneration Tribunal" <https://www.vic.gov.au/about-victorian-independent-remuneration-tribunal> [Cyrchwyd 02.02.24]

<sup>45</sup> Tribiwnlys Taliadau Annibynnol Victoria *Members of Parliament (Victoria) Determination No. 01/ 2023* <https://content.vic.gov.au/sites/default/files/2023-06/Members-of-Parliament-%28Victoria%29-Determination-No.-01-2023.pdf>

---

- Dwyn i ystyriaeth y cyflog a'r lwfansau ar gyfer Aelodau Senedd y Gymanwlad a Gwladwriaethau a Thiriogaethau eraill, a rolau a chyfrifoldebau'r Aelodau hynny.
- Dwyn i ystyriaeth y canllawiau a'r dyfarniadau presennol sy'n llywodraethu'r defnydd o lwfansau seneddol sy'n gysylltiedig â gwaith a'r Gyllideb, gan gynnwys unrhyw ddyfarniadau perthnasol gan Swyddfa Trethiant Awstralia.
- Sicrhau bod aelodau unigol mewn sefyllfa gyffredinol nad yw'n llai ffafriol na'r trefniadau sydd ar waith cyn gwneud y penderfyniad, gan ddwyn i ystyriaeth y cyflog sylfaenol, cyflog ychwanegol, y Swyddfa Etholwyr a'r Gyllideb Cyfathrebiadau, lwfansau seneddol yn gysylltiedig â gwaith a threfniadau blwydd-dal a phensiwn.

Mae Penderfyniad 2024 yn cynnig dadansoddiad cynhwysfawr o'r ystyriaethau a oedd yn sail i benderfyniad y Tribiwnlys ynghylch lefelau cyflog Aelodau Seneddol. Archwiliodd y Tribiwnlys amodau economaidd presennol a rhagamcanol yn ofalus, iechyd ariannol ac amcanion strategol Talaith Victoria, y Polisi Cyflogau presennol, a chyflwyniadau perthnasol. At hynny, rhoddwyd ystyriaeth briodol i addasiadau cyflog a weithredwyd mewn awdurdodaethau eraill, a'r cynnydd yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Yn sgil y ffactorau hyn, penderfynodd y Tribiwnlys ar gynnydd o 3.5% i gyflog sylfaenol Aelodau Seneddol Victoria, yn ogystal â'r cyflogau atodol a'r lwfansau treuliau a ddyrennir i ddeiliaid swyddi seneddol dynodedig.<sup>46</sup>

### Deiliaid swyddi ychwanegol

---

Mae nifer o ddeiliaid swyddi seneddol penodedig yn cael cyflogau ychwanegol a lwfansau treuliau. Mae'r ystod o rolau deiliad swydd sy'n cael tâl yn cynnwys y Prif Weinidog, Dirprwy Brif Weinidog, Gweinidogion, Arweinydd yr Wrthblaid, Dirprwy Arweinydd yr Wrthblaid, Arweinydd y Trydydd Parti, Ysgrifennydd y Cabinet, Gweinidogion yr Wrthblaid, Chwip y Llywodraeth, Chwip yr Wrthblaid, Chwip y Trydydd Parti, Cadeiryddion Pwyllgorau, Ysgrifenyddion y Pleidiau (Llywodraeth, yr Wrthblaid a Thrydydd Parti).<sup>47</sup> Mae'r cyflogau ychwanegol ar gyfer detholiad o'r rolau hyn fel a ganlyn:

---

<sup>46</sup> [Members-of-Parliament-\(Victoria\)-Annual-Adjustment-Determination-2024.pdf](#)

<sup>47</sup> Ibid.

**Tabl Deuddeg**

<b>Deiliad Swydd Seneddol Penodedig</b>	<b>Cyflog ychwanegol o 1 Gorffennaf 2024 (y flwyddyn)<sup>48</sup></b>
Prif Weinidog	\$229636 (£115966)
Dirprwy Brif Weinidog	\$194212 (£98077)
Unrhyw Weinidog cyfrifol arall y Goron	\$172982 (£87356)
Arweinydd yr Wrthblaid	\$172982 (£87356)
Llywydd	\$151100 (£76306)
Y Llefarydd	\$151100 (£76306)
Dirprwy Lywydd	\$58057 (£29319)
Dirprwy Llefarydd	\$58057 (£29319)
Dirprwy Arweinydd yr Wrthblaid yn y Cynulliad	\$82752 (£41790)
Arweinydd yr Wrthblaid yn y Cyngor	\$82752 (£41790)
Arweinydd y Trydydd Parti (oni bai bod yr unigolyn hefyd yn Arweinydd neu Ddirprwy Arweinydd yr Wrthblaid neu'n Weinidog y Goron)	\$82752 (£41790)
Ysgrifenydd Cabinet	\$82752 (£41790)
Ysgrifennydd Seneddol i'r Prif Weinidog	\$58057 (£29319)
Llefarydd yr Wrthblaid	\$17983 (£9081)
Chwip y Llywodraeth yn y Cynulliad	\$37043 (£18707)
Dirprwy Chwip y Llywodraeth yn y Cynulliad	\$20579 (£10392)
Dirprwy Arweinydd yr Wrthblaid yn y Cyngor	\$37043 (£18707)
Dirprwy Arweinydd y Trydydd Parti (oni bai bod yr unigolyn hefyd yn Arweinydd neu Ddirprwy Arweinydd yr Wrthblaid neu'n Weinidog y Goron)	\$37043 (£18707)
Chwip y Llywodraeth yn y Cyngor	\$22638 (£11432)
Chwip yr Wrthblaid yn y Cynulliad	\$22638 (£11432)
Chwip yr Wrthblaid yn y Cyngor	\$22638 (£11432)
Chwip y Trydydd Parti yn y Cynulliad	\$22638 (£11432)
Chwip y Trydydd Parti yn y Cynulliad	\$(£4157))
Ysgrifennydd y Blaid sy'n ffurfio'r Llywodraeth	\$8232 (£4157)
Ysgrifennydd yr Wrthblaid	\$8232 (£4157)
Ysgrifennydd y Trydydd Parti	\$8232 (£4157)

<sup>48</sup> Yn seiliedig ar drawsnewidydd arian cyfred Google 17.02.25

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Amcangyfrifon	\$41160 (£20,778)
Cadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Ddeddfau a Rheoliadau	\$30870 (£15,583)
Cadeirydd y Pwyllgor Uniondeb a Goruchwyliaeth	\$30870 (£15,583)
Cadeirydd pwyllgor sefydlog a benodir o dan reol sefydlog y Cynulliad neu'r Cyngor	\$20579 (£10,388)
Cadeirydd Cydbwyllgor Ymchwilio o fewn ystyr Deddf Pwyllgorau Seneddol 2003 (Victoria) na ddarperir ar ei chyfer fel arall yn y tabl hwn	\$20579 (£10,388)
Cadeirydd y cydbwyllgor dethol pan fydd penderfyniad yn sefydlu pwyllgor yn darparu bod gan y cadeirydd hawl	\$10290 (£5,194)
Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac Amcangyfrifon	\$8232 (£4,156)
Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Ddeddfau a Rheoliadau	\$8232 (£4,156)
Dirprwy gadeirydd y Pwyllgor Uniondeb a Goruchwyliaeth	\$8232 (£4,156)

## Yr Almaen

Mae aelodau Bundestag yr Almaen yn cael €11,227.20 y mis, sy'n cyfateb i **€134,726.40**<sup>49</sup> (£112,052)<sup>50</sup> y flwyddyn.

Fel y nodir mewn deddfwriaeth, mae gan Aelodau'r Bundestag yr hawl i dâl sy'n ddigonol i sicrhau eu hannibyniaeth.<sup>51</sup> Mae lefel tâl Aelodau yn seiliedig ar yr enillion sy'n daladwy i ddeiliaid swyddi sy'n destun cyfrifoldebau a beichiau tebyg. Mae'r 30ain Ddeddf i Ddiwygio'r Ddeddf ar Statws Cyfreithiol Aelodau o Bundestag yr Almaen, a ddaeth i rym ar 16 Gorffennaf 2014, yn dyfynnu incwm barnwyr cyffredin yn y llysoedd ffederal uchaf fel meincnod.<sup>52</sup>

Caiff lefelau cyflog eu haddasu'n flynyddol, ac maent yn seiliedig ar y mynegai cyflog enwol a gyfrifir gan y Swyddfa Ystadegol Ffederal.

<sup>49</sup> "Remuneration of Members of the German Bundestag" <https://www.bundestag.de/en/members/remuneration>. [Cyrchwyd 10.12.2024]

<sup>50</sup> Yn seiliedig ar drawsnewidydd arian cyfred Google 17.02.25

<sup>51</sup> Ibid.

<sup>52</sup> Ibid.

## Norwy

Mae tâl Aelodau Seneddol a hawliau ariannol eraill wedi'u nodi yn y Ddeddf sy'n ymwneud â Thâl Aelodau'r Storting.<sup>53</sup> Gwneir argymhellion i'r Storting gan y Pwyllgor Tâl, sy'n asesu tâl Aelodau Seneddol yn flynyddol.<sup>54</sup>

O fis Mai 2022, cyflog sylfaenol Aelod Seneddol yw **NOK 1,171,000** (£83,609)<sup>55</sup> y flwyddyn (oddeutu £86,654).

Mae nifer o ddeiliaid swyddi ychwanegol yn derbyn cyflogau uwch<sup>56</sup>:

- Mae Prif Weinidog a Llywydd y Storting yn cael eu talu ar yr un lefel, fel y nodir mewn deddfwriaeth. Ar hyn o bryd mae hyn yn NOK 2,057,177 y flwyddyn (£146,882.44).
- Ar gyfer aelodau eraill o'r llywodraeth, mae cyflogau wedi'u gosod ar NOK 118,100.78 y flwyddyn (£8,432.40).
- Mae gan Is-lywydd Cyntaf y Storting lwfans ychwanegol o 14% o dâl blynyddol sefydlog Aelod Seneddol. Telir 7% o'r tâl blynyddol sefydlog i is-lywyddion eraill a chadeiryddion y pwyllgorau sefydlog. At hynny, mae'r canrannau hyn wedi'u nodi mewn deddfwriaeth.<sup>57</sup>

## Denmarc

Yn ôl Deddf Etholiad Seneddol Denmarc<sup>58</sup>, mae'n ofynnol i Aelodau Seneddol gael cyflog a phwysoliad sylfaenol, h.y. ni chânt wrthod derbyn tâl am eu gwaith. At hynny, mae swm cyflog Aelodau Seneddol wedi'i nodi yn Deddf Etholiad Seneddol Denmarc.

Telir pwysoliad I i Aelodau Seneddol sy'n byw yn Nenmarc, ac ni chaiff ei drethu.

---

<sup>53</sup> *MPs' pay, allowances and other arrangements* <https://www.stortinget.no/en/In-English/Members-of-the-Storting/Financial-support/>. [Cyrchwyd 10.12.24]

<sup>54</sup> Ibid.

<sup>55</sup> Yn seiliedig ar drawsnewidydd arian cyfred Google 17.02.25

<sup>57</sup> *Act 2011-12-16 NO. 61: Act pertaining to Remuneration of Members of the Storting (the Storting Remuneration Act)* <https://www.stortinget.no/globalassets/pdf/english/the-storting-remuneration-act.pdf>

<sup>58</sup> *Folketing (Parliamentary) Elections Act* <https://elections.im.dk/parliament-elections/folketing-parliamentary-elections-act>

Telir pwysoliad II i Aelodau Seneddol a etholwyd yn yr Ynys Las ac Ynysoedd Faroe, ac bid yw hwnnw, ychwaith, wedi'i drethu.<sup>59 60</sup>

### Tabl Tri ar Ddeg

Swm mewn DKK ar 01/10/2024	Y mis	Y flwyddyn
Cyflog sylfaenol	62.805,00 (£7,003)	753.660 (£84,033)
Pwysoliad I *)	6.076,08 (£677)	72.913 (£8,130)
Pwysoliad II *)	8.101,42 (£903)	97.217 (£10,840)

Yn ôl data o safle data byd-eang IPU Parline, telir cyflogau ychwanegol i'r Llefarydd – sy'n cyfateb i gyflogau'r Prif Weinidog – ond nid i gadeiryddion pwyllgorau.<sup>61</sup> Pennir cyflogau aelodau gan gyfeirio at raddfa gyflog y gwasanaeth sifil.<sup>62</sup>

### Y Ffindir

Mae cyflog Aelodau Seneddol yn y Ffindir yn cael ei bennu gan y Pwyllgor Cyflogau, sy'n cynnwys tri aelod, ac ni chaiff yr un ohonynt fod yn Aelod Seneddol nac yn was sifil seneddol.<sup>63</sup>

Mae Aelodau Seneddol yn y Ffindir yn cael cyflog o **€7,137 y mis/€85,644 y flwyddyn** (£5,938 y mis/£71,256 y flwyddyn).<sup>64</sup> Mae hyn yn cynyddu ar sail hyd gwasanaeth, gan gynyddu i €7,494/€89,928 y flwyddyn (£6,235 y mis/£73,988 y flwyddyn) ar ôl pedair blynedd, ac i €7,993 y mis/€95,916 y flwyddyn (£6,650 y mis/£79,802 y flwyddyn) ar ôl deuddeg mlynedd.<sup>65</sup>

Mae nifer o ddeiliaid swyddi seneddol yn cael cyflogau blynyddol uwch<sup>66</sup>:

<sup>59</sup> *Remuneration and Pensions / The Danish Parliament*. [Cyrchwyd 10.12.24]

<sup>60</sup> Yn seiliedig ar drawsnewidydd arian cyfred Google 17.02.25

<sup>61</sup> *Denmark | The Danish Parliament | Parliamentary mandate | IPU Parline: global data on national parliaments* [Cyrchwyd 10.12.24]

<sup>62</sup> Ibid.

<sup>63</sup> *MPs' salaries and pensions* <https://www.eduskunta.fi/EN/kansanedustajat/palkkiot-ja-kulukorvaukset/Pages/default.aspx> [Cyrchwyd 02.02.24]

<sup>64</sup> Ibid.

<sup>65</sup> Ibid.

<sup>66</sup> Ibid.

**Tabl Pedwar ar Ddeg**

<b>Rôl</b>	<b>Y mis</b>	<b>Y flwyddyn</b>
Y Llefarydd	€ 14,448 (£12,021)	€ 173,376 (144,245)
Dirprwy Lefaryddion	€ 11,266 (£9,373)	€ 135,192 (£135,112)
Cadeiryddion pwyllgorau	€ 803 (£668)	€ 9,636 (£8,017)
Cadeiryddion is-bwyllgorau	€ 530 (£441)	€ 6,360 (£5,292)
Cadeiryddion Pwyllgorau (Uwch-bwyllgor, Cyfraith Gyfansoddiadol, Materion Tramor, Cyllid ac Archwilio)	€ 1,323 (£1,101)	€ 15,876 (£13,209)
Cadeiryddion Is-bwyllgorau (Uwch-bwyllgor, Cyfraith Gyfansoddiadol, Materion Tramor, Cyllid ac Archwilio)	€ 803 (£668)	€ 9,639 (£8,020)

At hynny, diffinnir tâl a lwfansau gweinidogol yn y ddeddf ar gyflog Aelodau Seneddol. Mae cyflogau gweinidogion yn hafal i gyflog y Dirprwy Lefarydd, ac mae cyflog y Prif Weinidog yn hafal i gyflog y Llefarydd.<sup>67</sup>

Mae gan weinidogion hawl i gyflog a threuliau Aelod Seneddol yn ychwanegol at eu tâl gweinidogol, ond yn ôl confensiwn maent yn fforffedu hanner eu cyflog a'u lwfans treuliau fel Aelodau Seneddol.<sup>68</sup>

**Sweden**

Pennir lefelau cyflog aelodau Riksdag Sweden gan Fwrdd Cyflogau'r Riksdag. Mae aelodau'n ael cyfradd sylfaenol, fisol o **75,500 SEK** (906,000 SEK y flwyddyn; £67,162<sup>69</sup>).<sup>70</sup> Telir cynyddrannau i rai deiliaid swyddi ychwanegol.

Mae cadeirydd pwyllgor yn cael cynyddran o 20%, dirprwy gadeirydd yn cael cynyddran o 15%.<sup>71</sup>

<sup>67</sup> "Ministerial pay and allowances and ministers' private interests" <https://valtioneuvosto.fi/en/governments/pay-allowances-and-private-interests> [Cyrchwyd 02.02.24]

<sup>68</sup> Ibid.

<sup>69</sup> Yn seiliedig ar drawsnewidydd arian cyfred Google 17.02.25

<sup>70</sup> "Members' pay" <https://www.riksdagen.se/en/members-and-parties/the-members-pay-and-conditions/members-pay/> [Cyrchwyd 02.02.24]

<sup>71</sup> Ibid.

Mae'r Llefarydd yn cael yr un tâl â'r Prif Weinidog, sef 184,000 SEK y mis (2,208,000 SEK y flwyddyn; £163,679<sup>72</sup>).<sup>73</sup> Mae'r Dirprwy Lefarydd yn cael cynyddran o 30% o gyflog aelod.<sup>74</sup>

## Awstria

Mae cyflog aelodau Senedd Awstria wedi'i nodi yn Neddf Cyflogau Ffederal 1997, a gyflwynodd system unffurf o dâl a phwynt uchaf ar gyfer lefelau ffederal a thaleithiol.<sup>75</sup> Ar hyn o bryd mae Aelodau o'r Cyngor Cenedlaethol (y siambr is) yn cael cyflog misol o **€8,755.80** (€105,069.60 y flwyddyn / £87,396 y flwyddyn<sup>76</sup>).<sup>77</sup>

Mae manylion taliadau deiliaid swyddi ychwanegol wedi'u nodi yn y Ddeddf Enillion Ffederal. Mae'r rhain yn cael eu cyfrifo fel canran o'r tâl sylfaenol i aelodau<sup>78</sup>:

- Is-Ganghellor â chyfrifoldeb dros weinyddiaeth 220%
- Is-Ganghellor heb fod â chyfrifoldeb dros weinyddiaeth 200%
- Llywydd y Cyngor Cenedlaethol 210%
- Llywydd y Llys Archwilio 180%
- Ail a Thrydydd Llywydd y Cyngor Cenedlaethol 170%

Pe bai gan rywun hawl i ddau fuddiant deiliad swydd ychwanegol, byddent yn cael y gwerth uwch.<sup>79</sup>

---

<sup>72</sup> Yn seiliedig ar drawsnewidydd arian cyfred Google 17.02.25

<sup>73</sup> "Members' pay" <https://www.riksdagen.se/en/members-and-parties/the-members-pay-and-conditions/members-pay/> [Cyrchwyd 02.02.24]

<sup>74</sup> Ibid.

<sup>75</sup> "Members: Members of Parliament and their responsibilities" <https://www.parlament.gv.at/en/explore/members-and-entities/the-national-council/members#:~:text=The%20Remuneration%20of%20Members&text=Gross%20monthly%20salaries%20of%20National,employing%20one%20to%20two%20assistants.> [Cyrchwyd 05.02.24]

<sup>76</sup> Yn seiliedig ar drawsnewidydd arian cyfred Google 17.02.25

<sup>77</sup> "Members: Members of Parliament and their responsibilities" <https://www.parlament.gv.at/en/explore/members-and-entities/the-national-council/members#:~:text=The%20Remuneration%20of%20Members&text=Gross%20monthly%20salaries%20of%20National,employing%20one%20to%20two%20assistants.> [Cyrchwyd 05.02.24]

<sup>78</sup> "Federal Emoluments Act" <https://www.parlament.gv.at/en/explore/making-laws/legal-bases/page/index.html> [Cyrchwyd 05.02.24]

<sup>79</sup> Ibid.



## Canada

Mae aelodau'n cael indemniad sesiynol sylfaenol, gyda rhai swyddi'n cael tâl ychwanegol fel y nodir yn Neddf Senedd Canada, y Ddeddf Cyflogau, y Ddeddf Gweinidogaethau a Gweinidogion Gwladol a Deddf Pwyllgor Diogelwch a Chudd-wybodaeth Cenedlaethol Seneddwr.<sup>80</sup>

Yr indemniad sesiynol sylfaenol presennol ar gyfer aelodau Tŷ'r Cyffredin yw **\$203,100** (£113,533).<sup>81</sup> Mae nifer fawr o ddeiliaid swyddi ychwanegol yn gymwys i gael tâl ychwanegol fel a ganlyn<sup>82</sup>:

### Tabl Pymtheg

Rôl	Cyflog ychwanegol
Prif Weinidog y DU	\$203,100 (£113,625.72)
Llefarydd Tŷ'r Cyffredin	\$96,800 (£54,166.56)
Arweinydd yr Wrthblaid yn y Senedd	\$45,800 (£25,629.36)
Gweinidog	\$96,800 (£54,166.56)
Gweinidog Gwladol	\$96,800 (£54,166.56)
Ysgrifennydd Gwladol	\$72,400 (£40,515.68)
Arweinydd – pleidiau eraill	\$68,600 (£38,364.32)
Cadeirydd pwyllgor	\$13,700 (£7,660.04)
Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sefydlog	\$6,700 (£3,747.64)
Dirprwy Lefarydd Tŷ'r Cyffredin	\$50,100 (£28,020.92)
Arweinydd Tŷ yr Wrthblaid	\$50,100 (£28,020.92)
Prif Chwip y Llywodraeth	\$36,000 (£20,131.20)
Prif Chwip yr Wrthblaid	\$36,000 (£20,131.20)
Ysgrifennydd Seneddol	\$19,600 (£10,964.32)
Dirprwy Lefaryddion Cynorthwyon	\$19,600 (£10,964.32)
Arweinydd Tŷ – pleidiau eraill	\$19,600 (£10,964.32)
Dirprwy Arweinwyr Tŷ – y Llywodraeth a'r Wrthblaid Swyddogol	\$19,600 (£10,964.32)
Chwip – pleidiau eraill	\$13,800 (£7,715.76)
Dirprwy Chwip yr Wrthblaid yn y Senedd	\$3,300 (£1,845.36)
Cadeirydd y Cawcws – y Llywodraeth a'r Wrthblaid Swyddogol	\$13,800 (£7,715.76)

<sup>80</sup> "Indemnities, Salaries and Allowances" [https://lop.parl.ca/sites/ParlInfo/default/en\\_CA/People/Salaries](https://lop.parl.ca/sites/ParlInfo/default/en_CA/People/Salaries) [Cyrchwyd 10.12.24]

<sup>81</sup> Yn seiliedig ar drawsnewidydd arian cyfred Google 17.02.25

<sup>82</sup> *Indemnities, Salaries and Allowances*

Cadeiryddion cydbwyllgorau sefydlog, arbennig, cyd-bwyllgorau sefydlog a chyd-bwyllgorau sefydlog arbennig	\$13,800 (£7,715.76)
--	----------------------

Ar draws rolau seneddol gwahaniaethir rhwng yr wrthblaid swyddogol a phleidiau eraill, gyda chyflogau uwch i aelodau'r wrthblaid swyddogol.

## 4. Atodiad A: Cymariaethau â'r DU

### Tabl Un ar Bymtheg

Deddfwrfa	Cyflog Sylfaenol (2024-25)
Y Senedd	£72,057
Senedd y DU	£91,346
Senedd yr Alban	£72,196
Cynulliad Gogledd Iwerddon	£52,500

### Tabl Dau ar Bymtheg

Deiliaid swyddi ychwanegol	
<p><b>Y Senedd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Prif Weinidog</li> <li>• Gweinidog Cymru</li> <li>• Y Cwnsler Cyffredinol</li> <li>• Dirprwy Weinidog</li> <li>• Y Llywydd</li> <li>• Y Dirprwy Lywydd</li> <li>• Comisiynydd y Senedd</li> <li>• Cadeirydd Pwyllgor (Uwch)</li> <li>• Cadeirydd Pwyllgor (Is)</li> <li>• Aelod o'r Pwyllgor Busnes</li> <li>• Arweinydd grŵp gwleidyddol nad yw yn y Llywodraeth</li> </ul>	<p><b>Senedd y DU</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadeiryddion pwyllgorau</li> <li>• Prif Weinidog y DU</li> <li>• Canghellor y Trysorlys</li> <li>• Canghellor Dugiaeth Caerhirfryn</li> <li>• Ysgrifennydd Gwladol</li> <li>• Yr Arglwydd Ganghellor</li> <li>• Arglwydd Lywydd y Cyngor ac Arweinydd Tŷ'r Cyffredin</li> <li>• Prif Ysgrifennydd y Trysorlys</li> <li>• Ysgrifennydd Ariannol i'r Trysorlys</li> <li>• Ysgrifennydd Seneddol i'r Trysorlys a'r Prif Chwip</li> <li>• Trysorydd Gweision EF a'r Dirprwy Brif Chwip</li> <li>• Gweinidog Gwladol</li> <li>• Ysgrifennydd Seneddol</li> <li>• Y Twrnai Cyffredinol</li> <li>• Y Cyfreithiwr Cyffredinol</li> <li>• Rheolwr Gweision EF (Chwip y Llywodraeth)</li> <li>• Is-Siambrlen Gweision EM (Chwip y Llywodraeth)</li> <li>• Arglwydd Iau y Trysorlys (Chwip y Llywodraeth)</li> <li>• Chwip Cynorthwyol</li> </ul>

<b>Senedd yr Alban</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Y Prif Weinidog</li><li>• Yr Ysgrifenydd Cabinet</li><li>• Gweinidog</li><li>• Y Llywydd</li><li>• Y Dirprwy Lywydd</li><li>• Yr Arglwydd Adfocad</li><li>• Cyfreithiwr Cyffredinol yr Alban</li></ul>	<b>Cynulliad Gogledd Iwerddon</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• Aelod o'r Comisiwn</li><li>• Cadeirydd neu Bwyllgor Statudol neu Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus</li><li>• Y Llefarydd</li><li>• Prif Ddirprwy Lefarydd neu Ddirprwy Lefarydd</li><li>• Prif Weinidog neu Ddirprwy Brif Weinidog</li><li>• Swydd Weinidogol Arall</li><li>• Gweinidog Iau</li></ul>

## 5. ATODIAD B: Cymhariaeth Cyflogau Aelodau

Mae'r tabl isod yn rhoi cymhariaeth sydyn o gyflog sylfaenol ar gyfer aelodau nifer o ddeddfwrfeydd sydd wedi'u cynnwys yn y papur tystiolaeth hwn. Mae data wedi'u cynnwys ar gyfer 2024-25, ac mae trosiad i sterling wedi'i gyflwyno ochr yn ochr â'r arian lleol.<sup>83</sup> Dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r gymhariaeth hon, a bydd deddfwrfeydd yn gwneud penderfyniadau ar gyflog sy'n berthnasol i'w cyd-destun gwleidyddol ac economaidd, yn ogystal ag mewn perthynas â rolau, cyllidebau a chymwyseddau deddfwriaethol gwahanol. At hynny, mae cyfraddau trosi yn gyfnewidiol.

### Tabl Deunaw

Deddfwrfa	Cyflog Blynyddol 2024-25 (Arian Lleol)	Cyflog Blynyddol 2024-25 (Sterling)
Y Senedd	£72,057	£72,057
Senedd y DU	£91,346	£91,346
Senedd yr Alban	£72,196	£72,196
Cynulliad Gogledd Iwerddon	£52,003	£52,003
Oireachtas, Iwerddon	€ 113,679	£94,501
Senedd Seland Newydd	\$168,600	£76,729
Senedd Victoria	\$205,798	£103,949
Bundestag, yr Almaen	€ 134,726	£111,998
Storting, Norwy	NOK 1,171,000	£83,609
Eduskunta, y Ffindir	€ 85,644	£71,195
Riksdag, Sweden	SEK 900,000	£66,717
Senedd Awstria	€ 233,650	£194,233
Tŷ'r Cyffredin, Canada	\$203,100	£113,594

<sup>83</sup> Trosiwyd arian cyfred gan ddefnyddio trawsnewidydd Google 17.02.2025, wedi'i dalgrynnu i'r bunt agosaf

## 6. Atodiad C: Cymhariaeth Mynegeio

Tabl Pedwar ar Bymtheg

Deddfwrfa	Dull Mynegeio	Cynnydd Blynyddol ar gyfer 2024-25
Y Senedd	Cynnydd blynyddol yn seiliedig ar gyflog canolrifol ASHE	3.0%
Senedd y DU	Cynnydd blynyddol yn seiliedig ar ddyfarniad cyflog o 5.5% ar gyfer gweithwyr yr Uwch Wasanaeth Sifil a thwf cyflog tymor canolig y sector cyhoeddus o 5.3%.	5.5%
Senedd yr Alban	Cynnydd blynyddol yn seiliedig ar gyflog sector cyhoeddus AWE	6.7%
Cynulliad Gogledd Iwerddon	Cynnydd blynyddol o £500 os yw CPI ar gyfer y mis Medi blaenorol yn fwy nag 1%.	0.5%
Oireachtas, Iwerddon	Cynnydd blynyddol yn gysylltiedig â chodiad cyflog y gwasanaeth sifil.	~5.86%
Senedd Seland Newydd	Cynnydd blynyddol i ffigwr y manylir arno yn y Penderfyniad, yn seiliedig ar gymhwyso set o egwyddorion arweiniol gan gynnwys perthynoledd teg â swyddi tebyg; yr angen i fod yn deg i'r unigolion y mae eu cyflog yn cael ei osod, ac i drethdalwyr; gofynion y swydd; yr angen i recriwtio a chadw unigolion cymwys; unrhyw amodau economaidd anffafriol presennol (a allai arwain yr Awdurdod i osod tâl ar gyfradd is nag y gallai fod wedi bod yn wir fel arall).	2.9%
Bundestag, yr Almaen	Cynnydd blynyddol yn seiliedig ar y Mynegai Cyflog Enwol.	6.0%
Folketing, Denmarc	Pennir tâl mewn perthynas â graddfa gyflog y gwasanaeth sifil.	Nid yw'r data ar gael
Senedd Victoria, Awstralia	Adolygiad blynyddol gydag unrhyw ymgodiad yn seiliedig ar gymhwyso set o egwyddorion arweiniol gan gynnwys datganiad o faterion polisi gan Lywodraeth Victoria sydd mewn grym o ran ei pholisi cyflogau; sefyllfa ariannol a strategaeth	3.5%

	gyllidol talaith Victoria; amodau a thueddiadau economaidd presennol a rhagamcanol; cyflwyniadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r penderfyniad arfaethedig.	
--	---	--